Gardd ddŵr-effeithlon Laura - Mis Mawrth.

www.gardenofwales.org.uk

Cennin Pedr gwywedig. Gadewch iddynt wywo. Tociwch y dail o leiaf chwe wythnos ar ôl gorffen blodeuo.

Heuwch hadau ar gyfer gwely blodau'r haf yn awr yn y cynhesrwydd. Tociwch brysgwydd colddail sy'n blodeuo yn yr haf megis Coed mêl a ffiwsias caled. Fe all llawer o'r rhain gael eu tocio i'r un maint bob blwyddyn.

Plannwch goed, prysgwydd, gwrych a rhosynnau yn awr. Peidiwch â difrodi'r pridd drwy'i weithio ac ychwanegwch gompost gardd, gwrtaith wedi hen fadru neu gynnyrch gwella pridd i wella ffrwythlondeb a dargadwedd dŵr yn yr haf.

Chwynnwch welyau blodau ac ychwanegwch haen o domwellt - organig neu raean a llechfaen fâl. Fe wna gadw gwreiddiau planhigion yn oerach, dargadw lleithder, a lleihau'r angen am ddyfrhau yn yr haf. A pham nag ewch am gasgen ddŵr yn awr? Fe wnewch drechu rhuthr yr haf.

Laura Davies, Uwch-Arddwriaethydd - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

www.dwrcymru.com

Gardd ddŵr-effeithlon Laura - Mai.

www.gardenofwales.org.uk

Rhowch domwellt ar y pridd i ddal y lleithder yn y tir. Hofiwch eginblanhigion chwyn ar ddiwrnod poeth, heulog. Fe fydd ar rai angen fforch ac ychydig mwy o nerth bôn braich.

Heuwch hadau ar gyfer cnydau salad a llysiau bob ychydig wythnosau am gyflenwad rheolaidd o gnydau drwy gydol yr haf.

Fe ellir hau ffa ffrengig a ffa dringo yn uniongyrchol i'r pridd ym mis Mai. Y mae pwmpenni yn tyfu'n eithriadol o dda os cânt eu plannu ar ben tomen gompost.

Torrwch wrychoedd bytholwyrdd a thociwch farf yr hen ŵr sy'n blodeuo yn y gwanwyn drwy dynnu ymaith goesynnau marw neu afiach. Cofiwch a gwahanwch gennin Pedr rhy drwchus unwaith y bydd y deiliant wedi dechrau gwywo. A pham nag ewch am gasgen ddŵr yn awr? Fe wnewch drechu rhuthr yr haf.

Laura Davies, Uwch-Arddwriaethydd - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

www.dwrcymru.com

Gardd ddŵr-effeithlon Laura - Mehefin.

www.gardenofwales.org.uk

Y mae cynwysyddion a basgedi yn caniatáu ychydig iawn o law drwy'r compost, ac felly dyfrhewch hwynt gyda chan dŵr, gan ddefnyddio dŵr glaw o'ch casgen ddŵr.

Cymrwch doriadau o'ch hoff blanhigion lluosflwydd lled-galed megis mynawyd y bugail, ffiwsias, osteospermwm a diasias, i arbed arian i chi'ch hun y flwyddyn nesaf.

Os oes gennych dŷ gwydr, ceisiwch â'i gynnal mor oer iach â phosibl ar ddiwrnodau poethion fel ag i beidio â rhoi straen ar eich planhigion. Gwyntyllwch gymaint â phosibl a chadwch y llawr yn llaith yn rheolaidd.

Y mae ynâ o hyd amser i hau moron, ffenigl a dail gwyrdd o'r dwyrain. Dechreuwch hau cnydau ar gyfer y flwyddyn nesaf, megis bresych y gwanwyn a sibols.

Laura Davies, Uwch-Arddwriaethydd - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

www.dwrcymru.com